

PWYLLGOR: PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD: 18 IONAWR 2023
TEITL: CYMERADWYO CYLLIDEB 2023/24
PWRPAS: I gymeradwyo cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.
ARGYMHELLIAD: CYMERADWYO'R GYLLIDEB
AWDUR: DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cymeradwyo Cyllideb 2023/24 ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi.

2. UNED GWEINYDDU PENSIYNAU

	Terfynol 2022/23 £	Chwyddiant 2023/24 £	Addasiadau* £	Cyllideb 2023/24 £
Gweithwyr	820,650	66,050	14,070	900,770
Costau teithio a chynhaliaeth	1,440	0	0	1,440
Cyflenwadau a Gwasanaethau	259,430	19,510	0	278,940
Gwasanaethau Canolog	125,900	6,300	0	132,200
Cyfanswm	1,207,420	91,860	14,070	1,313,350

* Mae'r addasiadau'n cynnwys ail-raddio 1 swydd ac incrementau staff eraill.

2.1 Gweithwyr, costau teithio a chynhaliaeth

Mae'r gyllideb ar gyfer yr adain yma'n cynnwys 22 swydd llawn amser (3 ohonynt yn swyddi dros dro) a 2 swydd rhan amser.

2.2 Cyflenwadau a Gwasanaethau

Mae'r gyllideb yma'n cynnwys costau argraffu, defnyddiau swyddfa a chostau meddalwedd.

2.3 Gwasanaethau Canolog

Mae'r gwasanaethau canolog yn cynnwys elfen o gostau Cyfarwyddwr y Gronfa, y Pennaeth Cyllid a'i staff ategol, a chefnogaeth gan wasanaethau'r C yngor megis technoleg gwybodaeth, corfforaethol a chyfreithiol.

3. UNED BUDDSODDI

	Terfynol 2022/23 £	Chwyddiant 2023/24 £	Addasiad £	Cyllideb 2023/24 £
Gweithwyr	118,070	14,390	0	132,460

3.1 Gweithwyr

Mae'r adain yma wedi'i leoli o fewn y brif uned Cyllid Canolog, felly dim ond elfen o'r swyddi a ariennir gan y Gronfa Bensiwn.

Ceir 3 swydd llawn amser yn yr uned gydag amser y swyddogion wedi'i rannu rhwng Cronfa Bensiwn Gwynedd a Chyngor Gwynedd. Ariennir y canrannau canlynol o'r swyddi gan y Gronfa Bensiwn:

- Rheolwr Buddsoddi (90%)
- Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau (85%)
- Cyfrifydd Cynorthwyol Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys (65%)

4. COSTAU RHEOLWYR BUDDSODDI AC YMGYNGHORWYR

4.1 Nid oes cyllideb yn cael ei osod ar y pwynt yma gan fod y gwariant yn newidiol, ond mae'r gwariant yn cael ei adrodd yn llawn o fewn y cyfrifon terfynol ac Adroddiad Blynyddol y Gronfa.

5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo cyllideb yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24.